University of BRISTOL

PolicyBristol

# Beth ddylai fod yn Ddarpariaeth 'Ar Gael yn Gyffredinol' mewn ysgolion yng Nghymru?

*Dr Cathryn Knight, Dr Carmel Conn and Dr Rhiannon Packer*

## Cefndir

Mae Cymru ar hyn o bryd yn trosglwyddo i system 'Anghenion Dysgu Ychwanegol' (ADY) newydd, gan ddisodli'r hen system 'Anghenion Addysgol Arbennig'. Mae adolygiadau diweddar o weithrediad y system newydd wedi tynnu sylw at faterion yn ymwneud ag eglurder terminoleg y system newydd (Estyn, 2023; Senedd Cymru, 2024). Yn benodol, maent yn galw am ddealltwriaeth gliriach o'r gwahaniaeth rhwng 'darpariaeth sydd ar gael yn gyffredinol' a 'darpariaeth dysgu ychwanegol'.

Dylid diwallu anghenion y rhan fwyaf o ddysgwyr mewn lleoliadau prif ffrwd gydag addysgu ac arfer ansawdd uchel trwy ddefnyddio adnoddau a chymorth 'sydd ar gael yn gyffredinol'. O dan y system ADY, mae angen Cynllun Datblygu Unigol (CDU) ar ddysgwyr y nodir bod ganddynt ADY. Mae hwn yn gynllun statudol sy'n amlinellu'r 'ddarpariaeth ddysgu ychwanegol' (DDY) sydd ei hangen arnynt i gyflawni eu nodau addysgol a datblygiadol. Mae cynnwys y ddogfen hon yn gyfreithiol-rwym.

**Nodau Ymchwil**

Gan weithio gyda'r tîm Anghenion Dysgu Ychwanegol yn Llywodraeth Cymru fel partner, cynhaliwyd trafodaethau bord gron gyda rhanddeiliaid addysg allweddol er mwyn darganfod:

- Beth mae rhanddeiliaid addysg yn credu sydd 'ar gael yn gyffredinol' i bob dysgwr yng Nghymru?
- Beth mae rhanddeiliaid addysg yn credu sy'n gwahaniaethu arfer fel 'darpariaeth ddysgu ychwanegol?

**Dulliau**

Cynhaliwyd trafodaethau grŵp ffocws ar-lein ac wyneb-yn-wyneb. Gofynnwyd i randdeiliaid gofrestru eu diddordeb ar gyfer y grwpiau ffocws mewn ymateb i e-bost recriwtio o restr bostio ADY Llywodraeth Cymru. Rhoddwyd cyfranogwyr â diddordeb mewn grwpiau yn seiliedig ar eu rôl. Cynhaliwyd 10 grŵp ffocws yn Gymraeg a Saesneg gyda:

- Chydlynwyr ADY Cynradd (CydADY); Cydlynwyr ADY Uwchradd; Athrawon dosbarth a darlithwyr Addysg Bellach; uwch arweinwyr; Cynorthwywyr cymorth dysgu; Swyddogion Awdurdodau Lleol (ALl) (ar draws 6 ALl); Myfyrwyr Blwyddyn 11.

Cafodd y grwpiau ffocws eu recordio a'u trawsgrifio. Cynhaliwyd dadansoddiad cynnwys gan y tîm ymchwil i fynd i'r afael â'r cwestiynau ymchwil a nodwyd.



*Llun gan Pixabay*

## Canfyddiadau Allweddol

Mae rhanddeiliaid addysg yng Nghymru yn gweithredu eu hymateb i ddarpariaeth ADY ar draws tri math o ddarpariaeth. Mae'r hyn y mae rhanddeiliaid yn ei ystyried yn 'ar gael yn gyffredinol' yn cynnwys 1. sydd ar gael yn gyffredinol a 2. darpariaeth wedi'i thargedu:

1. **Y ddarpariaeth sydd ar gael yn gyffredinol**: Dyma'r ddarpariaeth sydd ar gael i bob dysgwr. Defnyddir y term 'darpariaeth gyffredinol' hefyd.
2. **Darpariaeth wedi'i thargedu**: Dyma'r ddarpariaeth sydd ar gael i rai dysgwyr yr ystyrir bod angen ystyriaeth ychwanegol arnynt, ond nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn y Cod ADY.
3. **Darpariaeth ddysgu ychwanegol**: Darpariaeth ychwanegol ar gyfer y rhai sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer ADY yn y Cod ADY ac sydd felly â CDU.

Awgrymodd y cyfranogwyr y buom yn siarad â nhw fod y system ymateb raddedig hon ar waith ar gyfer pob dysgwr mewn ysgolion. Roeddent yn awgrymu fod dysgwyr sydd angen CDU, ac felly ag ADY cydnabyddedig, yn blant a phobl ifanc nad oes modd diwallu eu hanghenion drwy 1) ddarpariaeth sydd ar gael yn gyffredinol ac 2) wedi'i thargedu. Nododd lleoliadau AB lai o ddibyniaeth ar y dull graddedig.

Dyma rai enghreifftiau o'r cyfranogwyr yr ystyriwyd eu bod ' ar gael yn gyffredinol':

- Technegau addysgu o ansawdd uchel (gan gynnwys arferion fel sgaffaldu, cwestiynu ac adborth effeithiol, a thalpio).
- Ymarfer myfyriol
- Cymhareb staffio ffafriol
- Meddylfryd a pherthynas cadarnhaol athro â myfyrwyr
- Mannau ysgol sy'n caniatáu ar gyfer ymneilltuo fel ardaloedd tawel a chlybiau
- Offer a threfniadaeth sylfaenol ee amserlenni gweledol, cardiau seibiant, cadeiriau siglo, clustffonau sy'n canslo sŵn.

Dyma rai enghreifftiau o'r cyfranogwyr a ystyriwyd fel ' **darpariaeth wedi'i thargedu**':

- Sesiynau tynnu'n ôl a dal i fyny (y cyfeirir atynt yn aml fel ymyriadau) ar gyfer agweddau fel llythrennedd, rhifedd a chymorth emosiynol.
- Gwasanaethau estynedig fel gwasanaethau ieuenctid a chwnselydd ysgol.
- Cefnogaeth yn y dosbarth sy'n fwy arbenigol e.e. cylchedau synhwyraidd.

Dyma rai enghreifftiau o'r cyfranogwyr ymarfer a ystyriwyd fel '**darpariaeth ddysgu ychwanegol**':

- Darpariaeth a ddarperir pan nad oes cynnydd wedi'i wneud ar ôl dau dymor o ymyrraeth.
- Sesiynau cefnogi ar amlder a dwyster uwch i'r rhai a gynigir fel 'ymateb graddedig'.
- Darpariaeth sy'n ofynnol pan na ellir darparu addysgu trwy sgaffaldu neu addasu'r cwricwlwm cyffredinol.

## Dehongliad

**Beth sy'n mynd yn dda?**

Amlygodd ein trafodaethau â rhanddeiliaid yn glir fod ysgolion yn cyflwyno darpariaethau o ansawdd uchel o dan y fframwaith cymorth 'sydd ar gael yn gyffredinol'. Mae'r arferion hyn yn enghraifft o addysg gynhwysol, gan eu bod wedi'u cynllunio'n fwriadol i fod o fudd i bob dysgwr a mynd i'r afael yn rhagweithiol â rhwystrau amgylcheddol i ddysgu.

Cydnabu rhanddeiliaid y bydd eu dulliau sydd ar gael yn gyffredinol yn cefnogi pob dysgwr "rydych yn darparu ar gyfer dysgwr sydd ag angen ychwanegol, mae'n mynd i fod yn effeithiol ar gyfer y dosbarth cyfan."

Disgrifiwyd ganddynt ystod eang o arferion a oedd yn canolbwyntio ar gymorth yn y dosbarth ac addasiadau rhesymol, ond hefyd ymagweddau ysgol gyfan, datblygiad proffesiynol, ymgysylltiad cymunedol a newid diwylliannol. Amlygwyd agwedd 'gallu gwneud', a oedd yn cynnal disgwyliadau uchel o ddysgwyr

ac yn cefnogi perthnasoedd dysgu cadarnhaol, fel elfen bwysig o fewn dull hyblyg a oedd yn 'llai cyfundrefnol' ac yn fwy empathig.

Mae tuedd gan leoliadau AB i ddibynnu llai ar ddull ymateb graddedig. O ganlyniad, mae lleoliadau AB yn aml yn mabwysiadau dulliau mwy cynhwysol, lleoliad cyfan i fodloni anghenion eu dysgwyr.  Gall hyn ddeillio o absenoldeb y dull haenog a ddefnyddiwyd mewn ysgolion yn ystod cyfnod yr hen system AAA.

## Ystyriaethau pwysig a beth sydd angen ei wella

O'r canfyddiadau hyn rydym yn awgrymu bod continwwm o gymorth yn cael ei gynnig mewn ysgolion. Ni chyfeirir at y continwwm hwn, yn enwedig lefel y ddarpariaeth 'ymateb graddedig', yn y polisi cyfredol ar ADY yng Nghymru **ar gyfer y rhai heb ADY a nodwyd**. Ymddengys fod hyn yn etifeddiaeth i'r system flaenorol a wahanodd y ddarpariaeth yn 'gweithredu ysgol', 'gweithredu ysgol a mwy' a 'datganiad'.

Roedd hefyd yn amlwg o siarad â rhanddeiliaid bod y ddarpariaeth a ddarperir mewn gwahanol leoliadau yn amrywio'n fawr rhwng lleoliadau ac awdurdodau lleol gyda rhanddeiliaid yn dweud ei bod yn "amrywio'n aruthrol o un ysgol i'r llall ". Felly, gall yr hyn a ystyrir yn ddarpariaeth sydd ar gael yn gyffredinol mewn un ysgol fod yn ddarpariaeth ddysgu ychwanegol mewn ysgol arall. Roedd yn ymddangos bod y gwahaniaethau yn y ddarpariaeth yn seiliedig ar anghenion y lleoliad (e.e. gofod, adnoddau, staffio) yn hytrach nag angen y dysgwr.

Wrth nodi'r mathau hyn o ddarpariaeth, nodwn er bod y dull ymateb graddedig yn cefnogi dysgwyr, ei fod hefyd yn cefnogi athrawon a allai fel arall gael eu gorlwytho. Ar draws y grwpiau ffocws, tynnodd ymarferwyr sylw at y pwysau sylweddol maent yn ei wynebu, yn enwedig o ran llwyth gwaith, cyfyngiadau amser, adnoddau cyfyngiedig, a hyfforddiant annigonol.  Roedd y straen ar Gydlynwyr ADY a'r sector yn thema allweddol a gododd o'r trafodaethau.

Ymhellach, mae gan rai o'r dulliau a ddefnyddir fel darpariaeth wedi'i thargedu ddeilliannau dymunol nad ydynt wedi'u cysylltu'n glir â chynnydd effeithiol yn y 'cwricwlwm cyffredinol'. Roedd hyn felly yn gwthio dysgwyr tuag at ddarpariaeth 'addysg arbennig'. O ganlyniad, roedd tuedd i flaenoriaethu ymyriadau arbenigol ar gyfer rhai dysgwyr dros fabwysiadu egwyddorion mwy cynhwysol.

Gwnaethom hefyd nodi mai ychydig iawn o ystyriaeth a roddwyd i'r sylfaen dystiolaeth greiddiol ar gyfer yr ymyriadau a oedd yn cael eu darparu ac i'r gwerthoedd a hyrwyddwyd, er enghraifft, ar gyfer dysgwyr niwro-ddargyfeiriol, p'un ai oedd ymyriad yn gwerthfawrogi amrywiaeth neu'n ceisio ei 'normaleiddio' neu ei guddio.



*Llun gan Ben Mullins, Unsplash*

University of BRISTOL

PolicyBristol

## Ystyriaethau ar gyfer y Llywodraeth:

- Sicrhau bod Cwricwlwm i Gymru yn cael ei ddefnyddio fel cyfle i ystyried sut y gellir gwreiddio darpariaeth o ansawdd uchel mewn arferion addysgu bob dydd.
- Ledled Cymru, mae angen gweledigaeth glir ar gyfer sut y dylai arfer cynhwysol edrych. Mae hyn yn cynnwys ystyried yr angen am ymateb graddedig mewn lleoliad gwirioneddol gynhwysol.
- Roedd lefel uchel o gytundeb ymhlith rhanddeiliaid ynghylch arferion pwysig 'sydd ar gael yn gyffredinol' a oedd yn canolbwyntio ar addysgu o ansawdd uchel. Felly, byddai canllawiau cenedlaethol ar yr hyn sydd ar gael yn gyffredinol yn ychwanegu eglurder at y term hwn
- Dylai fod gan ysgolion yr hyblygrwydd a'r annibyniaeth i ddiffinio'r ddarpariaeth fanwl sydd 'ar gael yn gyffredinol' yn eu lleoliadau.
- Dylid ystyried effaith ymateb graddedig ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae'r strategaethau a ddefnyddir, yn enwedig ar lefel y ddarpariaeth wedi'i thargedu, yn brin yn yr iaith Gymraeg. Felly, mae angen adnoddau i allu ailadrodd y dull hwn yn ysgolion Cymru.

## Ystyriaethau ar gyfer Awdurdodau Lleol:

- Mae angen dealltwriaeth ddatblygedig bod addysgu o ansawdd uchel yn mynd i'r afael ag anghenion mwyafrif helaeth o ddysgwyr. Mae angen datblygu'r gweithlu i gefnogi newid ffocws o addysg arbennig i addysg gynhwysol. Gellid gwneud hyn trwy rannu mwy o arfer da a lledaenu strategaethau a argymhellir.
- Adolygu'r ddarpariaeth ar draws lleoliadau, gan sicrhau bod addysgu cynhwysol o ansawdd uchel yn cael ei gyflwyno. Lle defnyddir yr ymateb graddedig, dylai'r ALI gefnogi lleoliadau i ystyried y sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr arferion a ddefnyddiwyd.

## Ystyriaethau ar gyfer Ysgolion a Cholegau

- Dylai lleoliadau werthfawrogi a chydnabod yr arferion sydd ar gael i bob dysgwr yn eu lleoliadau.
- Dylai aelod o staff yn y lleoliad fod yn gyfrifol am arfer, addysgu a dysgu cynhwysol. Byddai'r rôl hon yn golygu sicrhau bod arfer o ansawdd uchel yn digwydd ar draws y lleoliad i bob dysgwr. Fodd bynnag, o ystyried y baich ar Gydlynwyr ADY yn y system newydd, gall hwn fod yn Gydlynydd ADY neu beidio.
- Dylai fod llai o ddibyniaeth ar brofion gwaelodlin ac offer profi safonol i dybio gallu.
- Dylai lleoliadau werthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth y maent yn ei darparu, gan ystyried y sylfaen dystiolaeth a bod yn chwilfrydig am fanteision i'r dysgwr a'i leoliad.

## Gwybodaeth bellach

Cynhaliwyd yr ymchwil hwn yn rhan o Gymrodoriaeth 'Impact Acceleration Account' (IAA) yr ESRC mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, Prifysgol De Cymru, a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd. Mae'n adeiladu ar ymchwil flaenorol sy'n archwilio Anghenion Dysgu Ychwanegol yng Nghymru. (Conn et al; 2023; Knight & Crick, 2022; Knight et al., 2022; Knight, Conn, Crick & Brooks, 2023; Knight et al., 2024).

## Cysylltwch â'r ymchwilydd

Dr Cathryn Knight, Uwch-ddarlithydd, Seicoleg mewn Addysg, Prifysgol Bryste

cathryn.knight@bristol.ac.uk